Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Mai 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Data (Defnydd a Mynediad) Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 23 Hydref 2024. Mae'n cael ei noddi gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, roedd y Cyfnod Adrodd a'r trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher 7 Mai.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**2.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo un o Filiau perthnasol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**3.** Ar 2 Ionawr 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd.[2] Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 7 Mawrth 2025 (ein hadroddiad cyntaf).[3] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf ar 24 Ebrill 2025.[4]

**4.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â'r Bil ar 12 Mawrth 2025.[5] Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 ar 2 Ebrill 2025 (ein hail adroddiad).[6] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hail adroddiad ar 24 Ebrill 2025.[7]

---

[1] Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ionawr 2025
[3] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)., Mawrth 2025
[4] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 24 Ebrill 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mawrth 2025
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ebrill 2025
[7] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 24 Ebrill 2025

**5.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 3 Ebrill 2025.[8] Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar 2 Mai 2025 (ein trydydd adroddiad).[9]

**6.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 4) ar 28 Ebrill 2025[10], sy'n ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd ar 28 Ebrill 2025 ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

**7.** Ym mharagraff 7 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"Aseswyd bod y gwelliannau canlynol gan y llywodraeth a gyflwynwyd ar 28 Ebrill i Ran 1 o'r Bil angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd (y rhifau cyfeirnod a ddefnyddir isod yw'r rhifau cyfeirnod OPC a roddwyd i'r gwelliannau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol):*
>
> - *Gwelliannau OPC 155-160, sy'n diwygio cymal 4.*
> - *Gwelliannau OPC 139-141 ac OPC 168, sy'n diwygio cymal 11.*
> - *Gwelliant OPC 170, sy'n diwygio cymal 21.*
> - *Gwelliant OPC 173, sy'n diwygio cymal 25.*

**8.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

- mae'n parhau i gefnogi bwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil[11];
- mae pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar Ddigonolrwydd Data'r DU[12];

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ebrill 2025
[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mai 2025
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Ebrill 2025
[11] Memorandwm Rhif 4, paragraff 22
[12] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

- gall barhau i argymell bod y Senedd yn cefnogi'r Bil ac yn rhoi ei chydsyniad[13].

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**9.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 6 Mai 2025, a chytunwyd ar ein hadroddiad yn yr un cyfarfod.[14]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**10.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn cydsyniad y Senedd, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4.

### Pryderon cyffredinol

**11.** Mae amseriad Memorandwm Rhif 4 wedi golygu nad fu'n bosibl i'r Pwyllgor ei ystyried yn llawn. Nid yw hyn yn foddhaol.

**12.** Serch hynny, rydym o'r farn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y pwyntiau a ganlyn:

- Nid yw Memorandwm Rhif 4 yn cynnwys llawer o wybodaeth am effaith y gwelliannau sy'n destun y memorandwm hwnnw.

- Nid yw Memorandwm Rhif 4 yn mynd i'r afael â'r pryderon cyfansoddiadol sy'n weddill gyda Rhannau 1 a 2 o'r Bil a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Nid yw'r defnydd o rifau OPC yn Memorandwm Rhif 4 o fudd ac nid yw'n cynorthwyo tryloywder, ac rydym wedi codi hyn fel pryder o'r blaen.[15] Credwn fod rhifau OPC yn ymwneud â gwelliannau 11 i 16, 19 i 22, 30 a 32 a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiadau o Welliannau ar 29 Ebrill 2025[16].

[13] Memorandwm Rhif 4, paragraff 25
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mai 2025
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Mai 2024, paragraffau 105 i 106 a chasgliad 11
[16] Tŷ'r Cyffredin, y Cyfnod Adrodd: Dydd Mawrth 29 Ebrill 2025, Bil Data (Defnydd a Mynediad) [Tŷ'r Arglwyddi], fel y'i diwygiwyd (Papur Diwygio)

- Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i argymell i'r Senedd y rhoddir cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil er bod ei phryderon cyfansoddiadol yn parhau ynghyd â phryderon parhaus yn ymwneud â phenderfyniadau digonolrwydd data cyfredol y DU.

**13.** Rydym yn glynu wrth y pryderon a fynegwyd gennym yn y casgliadau a restrwyd yn ein trydydd adroddiad.